WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adborth ar yr Adolygiad o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau

## Cyngor Sir Ynys Môn


**Blwyddyn archwilio:** 2011

**Cyhoeddwyd:** Mai 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 288A2012

# Statws yr adborth

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y prosiect hwn gan Steve Barry.

# Cynnwys

Ni all y Cyngor ddangos a yw ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ai peidio.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Atodiadau | |
| Canfyddiadau manwl | 7 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae Cyngor Ynys Môn (y Cyngor) yn darparu gwasanaethau landlord i tua 3,800 o gartrefi. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am wneud gwaith atgyweirio ymatebol ar ei gartrefi. Ym mis Ionawr 2012, awgrymodd adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru[1] ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran gwella ei stoc dai er mwyn cyrraedd SATC. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cyrraedd SATC bydd angen iddo sicrhau ei fod yn cynnal ac yn cadw ei stoc i'r safon ofynnol.

**2.** Mae'r trefniadau presennol ar gyfer gwaith atgyweirio ymatebol wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac maent yn seiliedig ar raniad cleient/contractwr. Mae tîm Gwasanaethau Tai'r Cyngor, a leolir yn Llangefni, yn gweithredu fel y cleient ac mae Uned Cynnal a Chadw Adeiladau (yr Uned) y Cyngor, a leolir yn Gaerwen, yn gweithredu fel y contractwr. Disodlwyd y gofynion statudol i gynghorau gynnal proses dendro gystadleuol orfodol ar gyfer gwasanaethau gan ddyletswydd i sicrhau'r gwerth gorau flynyddoedd lawer yn ôl ac felly nid oes rhaid i'r Cyngor drefnu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar sail rhaniad cleient/contractwr.

**3.** Mae'r Uned yn cael ei llywio ar hyn o bryd gan ei disgwyliad y bydd yn sicrhau 'cyfradd adenillion' (yn dangos elw) ar ei chostau ariannol drwy sicrhau gwarged dros gostau darparu'r gwasanaeth. Er bod yr Uned yn honni iddi sicrhau gwarged yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendidau yn y trefniadau ariannol sy'n golygu na ellir cadarnhau'r gwarged hwn. Ni all y Cyngor ddangos bod y taliadau a godir gan yr Uned yn rhoi darlun cywir a theg o'r costau yn erbyn yr incwm a gafwyd. At hynny, mae gwaith rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn aneffeithiol oherwydd y lefel uchel o waith a archebir fel 'gwaith dydd'. Mae 'gwaith dydd' yn ddull o godi tâl am y gwaith atgyweirio hwnnw na ellir ei ragweld wrth baratoi contractau ac mae'n galluogi'r contractwr i brisio gwaith ar sail cyflogau (amser), cost deunyddiau ynghyd â chanran ar gyfer gorbenion ac elw. Mae'r gyfran uchel o waith a wneir ar y sail hon yn golygu ei bod yn anodd rheoli'r gyllideb sydd ar gael yn ystod y flwyddyn. Mater arall sy'n effeithio ar y defnydd effeithiol o adnoddau yw bod y rhaniad cleient/contractwr yn cyflwyno'r posibilrwydd o ddyblygu gweithgarwch, mewn perthynas ag arolygu gwaith ymlaen llaw, archebu gwaith ac arolygu gwaith a gwblhawyd.

**4.** Mae uwch swyddogion y Comisiynydd a'r Cyngor wedi cydnabod bod angen gwerthuso'r ffordd y mae'r gwasanaeth cynnal a chadw yn cael ei ddarparu a nodi gwelliannau sydd eu hangen. Gofynnodd y Cyngor am i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru*, 13 Ionawr 2012

5. Ceisiodd yr adolygiad hwn ateb y cwestiwn: ‘A all y Cyngor ddangos bod yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol drwy ystyried y canlynol:

- a oes cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau'r Uned a blaenoriaethau'r Cyngor;
- a oes gan yr Uned drefniadau priodol i reoli adnoddau a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol;
- a yw'r canlyniadau a gyflawnir gan yr Uned yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

6. Daeth yr adolygiad i'r casgliad canlynol: **Ni all y Cyngor ddangos a yw ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ai peidio**.

7. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r ffordd y caiff gweithgareddau eu trefnu o fewn yr Uned yn seiliedig ar fodloni gofynion o ran tendro cystadleuol gorfodol sydd bellach wedi dyddio ac nid oes unrhyw gonsensws yn y Cyngor ynghylch yr hyn y dylai'r gwasanaeth fod yn ceisio ei gyflawni i denantiaid. Nid yw blaenoriaethau strategol yr Uned yn ystyried y disgwyliadau statudol diweddaraf na blaenoriaethau strategol y Cyngor ei hun.
- Mae gwendidau sylfaenol yn perthyn i'r fframwaith presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth cynnal a chadw sy'n golygu na all y Cyngor ddangos bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.
- Er bod yr Uned a'r Gwasanaeth Tai yn asesu gwaith atgyweirio a gwblhawyd ac yn ceisio barn tenantiaid, nid oes unrhyw fframwaith ar waith ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn gyffredinol, ac mae gwendidau mewn prosesau dilysu gwybodaeth ariannol yn golygu na all y Cyngor werthuso ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn llawn.

8. Nododd yr adolygiad hwn fod swyddogion yn ymwybodol o lawer o'r diffygion yn y trefniadau presennol a bod rhai newidiadau yn yr arfaeth yn ystod 2012, gan gynnwys sefydlu system TGCh newydd a chyflwyno cyfrifiaduron llaw i'w defnyddio gan weithredwyr yr Uned i wella prosesau trefnu gwaith a chysoni gwaith a gwblhawyd. Mae'r cynigion ar gyfer gwella yn yr adborth hwn yn awgrymu bod angen cynnal adolygiad sylfaenol o drefniadau gwasanaethau ac y dylid gwneud hynny ar y cyd â newidiadau arfaethedig eraill. Os na chaiff hyn ei dderbyn a bod trefniadau cleient/contractwr yn parhau yna mae angen cynnal adolygiad manwl o weithdrefnau, arferion a gwybodaeth am berfformiad yr Uned fel mater o frys er mwyn sicrhau y gall ddangos ei bod yn perfformio mewn modd cost-effeithiol.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor bennu diben clir ar gyfer ei wasanaeth atgyweirio tai yn seiliedig ar yr hyn y mae am ei ddarparu i'w denantiaid a'i gyfraniad at gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor. |
| C2 | Sefydlu trefniadau gweithredol nad ydynt yn seiliedig ar raniad cleient/contractwr a datblygu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganolfan gostau. |
| C3 | Adolygu systemau ar gyfer cael, archebu a chwblhau gwaith atgyweirio ymatebol er mwyn lleihau gweithgareddau yn y system nad ydynt yn ychwanegu gwerth nac yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol. |
| C4 | Adolygu'r canfyddiadau a'r argymhellion yn adroddiad Archwiliad Mewnol Rhagfyr 2008 ynglŷn â phrosesau prisio gwaith yn yr Uned a gweithredu'r argymhellion hynny sy'n dal i fod yn berthnasol. |
| C5 | Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau er mwyn nodi'n glir gostau a manteision y trefniadau presennol yng nghyd-destun diben y gwasanaeth. (Dylai hyn gynnwys adolygiad o gostau a manteision y trefniadau presennol ar gyfer storfeydd o'u cymharu ag opsiynau amgen i sicrhau y gellir cael gafael ar ddarnau a deunyddiau.) |
| C6 | Ar ôl pennu diben clir ar gyfer y gwasanaeth, nodi ystod o fesurau perfformiad perthnasol sy'n ei gwneud yn bosibl i werthuso'r canlyniadau a gyflawnir a rhoi proses adolygu a gwerthuso systematig ar waith ar lefel swyddogion ac aelodau. |

**9.** Ceir ein canfyddiadau manwl yn Atodiad 1.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau manwl

| Cwestiwn | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A all y Cyngor ddangos bod yr Uned yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol?** | Na | Mae'r ffordd y caiff gweithgareddau eu trefnu o fewn yr Uned yn seiliedig ar fodloni gofynion o ran tendro cystadleuol gorfodol sydd bellach wedi dyddio ac nid oes unrhyw gonsensws yn y Cyngor ynghylch yr hyn y dylai'r gwasanaeth fod yn ceisio ei gyflawni i denantiaid. Nid yw blaenoriaethau strategol yr Uned yn ystyried y disgwyliadau statudol diweddaraf na blaenoriaethau strategol y Cyngor ei hun.<br>Mae gwendidau sylfaenol yn perthyn i'r fframwaith presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth cynnal a chadw sy'n golygu na all y Cyngor ddangos bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.<br>Er bod yr Uned a'r Gwasanaeth Tai yn asesu gwaith atgyweirio a gwblhawyd ac yn ceisio barn tenantiaid, nid oes unrhyw fframwaith ar waith ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn gyffredinol, ac mae gwendidau mewn prosesau dilysu gwybodaeth ariannol yn golygu na all y Cyngor werthuso ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn llawn. |
| **A oes cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau'r Uned a blaenoriaethau'r Cyngor?** | Nac oes | Nid yw'r Cyngor wedi manteisio ar y cyfle i adolygu blaenoriaethau'r Uned yng nghyd-destun newidiadau i ddeddfwriaeth nac yng nghyd-destun yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni o ran darparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol i'w denantiaid.<br>Mae arferion gwaith cyfredol yr Uned yn seiliedig ar systemau a sefydlwyd er mwyn bodloni deddfwriaeth yn ymwneud â thendro cystadleuol gorfodol a gyflwynwyd yn y 1990au ac nid ydynt wedi'u haddasu i adlewyrchu deddfwriaeth fwy diweddar.<br>Nid yw'r Uned yn gweithio mewn ffordd i sicrhau bod incwm yn talu am gost darparu gwasanaethau ond mae'n dal i weithio tuag at sicrhau 'gwarged' incwm dros wariant ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, awgrymwyd bod dros bump y cant wedi'i sicrhau. Mae'r ffaith bod yr Uned wedi cadw 'gwarged' o bump y cant o gyllideb o £3 miliwn yn golygu, i bob diben, nad yw tua £143,000 ar gael i ddarparu gwasanaethau.<br>**Cynnig ar gyfer gwella:**<br>C1 Dylai'r Cyngor bennu diben clir ar gyfer ei wasanaeth atgyweirio tai yn seiliedig ar yr hyn y mae am ei ddarparu i'w denantiaid a'i gyfraniad at gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor. |

| Cwestiwn | Ateb | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A oes gan yr Uned drefniadau priodol ar waith i reoli adnoddau a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol?** | Nac oes | Mae gwendidau sylfaenol yn perthyn i'r fframwaith presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth sy'n golygu na all y Cyngor ddangos bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.<br>Lluniwyd y rhestr cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer archebu gwaith gyntaf yn 1998 ac, er bod rhai eitemau wedi'u hychwanegu ati dros amser, nid yw'r cynnwys yn adlewyrchu'r gofynion presennol yn ddigonol. Cydnabuwyd hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n cyflwyno system fwy cyfoes y disgwylir iddi ddod yn weithredol tua diwedd 2012.<br>Mae adroddiadau a roddwyd gan yr Uned i'r Gwasanaeth Tai yn cynnwys y datganiad mai amcangyfrifon yw'r ffigurau a roddwyd ar gyfer gwerth gwaith a archebwyd (nas cwblhawyd) ac y gall y gost wirioneddol fod yn fwy ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Dangosodd sampl o archebion a gymerwyd o'r Uned a'r Gwasanaeth Tai ar gyfer dau ddiwrnod gwahanol fod 61 y cant a 41 y cant o'r archebion ar gyfraddau 'gwaith dydd'. Fel arfer disgwylid i waith y talwyd amdano ar gyfraddau 'gwaith dydd' gynrychioli canran isel iawn o'r holl waith a wnaed. Ar gyfer gwaith atgyweirio ymatebol ar dai dylai fod modd rhagweld y rhan fwyaf o'r gwaith y mae'n debyg y bydd angen ei wneud a sicrhau costau cymharol isel fesul darn o waith drwy ddefnyddio rhestr cyfraddau am fod y contractwr yn gallu ystyried yr holl waith y mae angen ei wneud a'i brisio ar y sail honno. Mae 'gwaith dydd' yn ddull o godi tâl am y gwaith atgyweirio hwnnw na ellir ei ragweld wrth baratoi contractau ac mae'n galluogi'r contractwr i brisio gwaith ar sail cyflogau (amser), cost deunyddiau ynghyd â chanran ar gyfer gorbenion ac elw. Mae talu am waith ar gyfraddau gwaith dydd yn rhoi'r cleient o dan anfantais oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y gost derfynol. Mae nifer o ganlyniadau i'r gyfran uchel hon o waith dydd, sef:<br>• Anallu i ddangos gwerth am arian o ran cost y gwaith.<br>• Yng nghyd-destun y gydberthynas cleient/contractwr, anallu ar ran y cleient i reoli natur y gwaith a wneir.<br>• Anallu i amcangyfrif faint o arian sy'n debygol o gael ei wario sy'n peri i'r Gwasanaeth Tai ymatal rhag gwneud gwaith atgyweirio nad yw'n hanfodol er mwyn ceisio rheoli costau. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar y gwasanaeth i denantiaid ac yn arwain at ôl-groniad o waith. |

| Cwestiwn | Ateb | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| | | Ym mis Rhagfyr 2008, cyflwynodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adroddiad ar brosesau prisio gwaith yr Uned a daeth i'r casgliad bod y systemau TGCh a oedd yn cael eu defnyddio wedi dyddio ac nad oeddent yn darparu'r lefel angenrheidiol o gymorth ar gyfer prisio gwaith a systemau storfeydd. Nododd hefyd broblemau 'sylweddol' yn gysylltiedig â'r rhestr cyfraddau. At hynny, nododd yr adroddiad Archwilio Mewnol wendidau o ran pennu costau gwasanaethau'r Uned a oedd yn golygu nad oedd yn bosibl dangos bod yr 'argost' o 20 y cant a godir wrth ofyn am arian ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai yn rhoi darlun cywir a theg o gostau ac, o ganlyniad, nid oedd yn bosibl nodi a oedd yr incwm yr Uned yn darparu gwarged, yn talu costau neu'n arwain at golled. Nid yw'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Archwilio Mewnol wedi'u gweithredu.<br>Mae cyfrifon cynnal a chadw misol yn cael eu llunio ar gyfer yr Uned gan ddefnyddio ffigurau a roddir i Gyfrifydd y Grŵp gan yr Uned. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch costau a ddisgrifir yn adroddiad Archwilio Mewnol 2008, ynghyd ag anallu i amcangyfrif yn fanwl gywir werth gwaith sydd heb ei wneud eto ac oedi cyn rhoi gwybodaeth ar ôl cwblhau gwaith, nid yw'n debygol bod y ffigurau a gynhyrchir yn ystod y flwyddyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Uned.<br>Dim ond archwiliadau cyfyngedig sydd wedi'u cynnal o weithgarwch yr Uned sy'n golygu mai dim ond sicrwydd rhannol sydd wedi'i roi i'r Cyngor ynglŷn â'r trefniadau mewn rhai meysydd gweithgarwch a allai ddwyn risg uchel:<br>• cynhelir proses cysoni stoc ar ddiwedd y flwyddyn yn y storfeydd ond nid yw gweithdrefnau storfeydd wedi'u harchwilio yn fanwl;<br>• mae'r Uned yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar gerbydau ond nid archwiliwyd gweithdrefnau yn y modurdy – deellir bod archwiliad wedi'i gynnwys yn y rhaglen Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol;<br>• nid archwiliwyd trefniadau caffael yr Uned - deellir y bwriedir cynnal Archwiliad Mewnol yn ystod 2012-13;<br>• ni ddadansoddwyd gwerth cronnol gwaith a drosglwyddir i gontractwyr gan yr Uned – deellir bod hyn yn debygol o gael ei ymgorffori yn yr archwiliad o drefniadau caffael. |

| Cwestiwn | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| | | Er bod gwendidau mewn systemau, mae elfennau o arfer sy'n darparu sail i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol:<br>• mae'r tîm newid tenantiaeth yn yr Uned yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tai ac mae wedi gwella'r amser 'gweithredu' ar gyfer ailosod eiddo;<br>• mae tîm SATC yn yr Uned yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tai a thenantiaid i wneud gwelliannau i dai ac mae'n cyflawni canlyniadau perfformiad tebyg neu well o'i gymharu â'r contractwr yn y sector preifat;<br>• mae'r Uned a'r Gwasanaeth Tai yn archwilio sampl o waith a gwblhawyd ac yn holi barn tenantiaid ar y gwasanaeth a gafwyd, er nad yw canfyddiadau yn cael eu rhannu i'w defnyddio i wella gwasanaethau;<br>• eir ati mewn ffordd systematig i sicrhau y cwblheir gwaith gwasanaethu statudol a cheir cydberthnasau gwaith effeithiol rhwng tîm yr Uned a'r Gwasanaeth Tai;<br>• nid yw'r Uned yn gweithredu cynllun bonws – sy'n golygu bod y risg y gwneir gwaith diangen yn cael ei lleihau, am nad oes cymhelliant i wneud hynny.<br><br>**Cynigion ar gyfer gwella:**<br>C2 Sefydlu trefniadau gweithredol nad ydynt yn seiliedig ar raniad cleient/contractwr a datblygu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganolfan gostau.<br>C3 Adolygu systemau ar gyfer cael, archebu a chwblhau gwaith atgyweirio ymatebol er mwyn lleihau gweithgareddau yn y system nad ydynt yn ychwanegu gwerth nac yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol.<br>C4 Adolygu'r canfyddiadau a'r argymhellion yn adroddiad Archwiliad Mewnol Rhagfyr 2008 ynglŷn â phrisio gwaith yn yr Uned a gweithredu'r argymhellion hynny sy'n dal i fod yn berthnasol.<br>C5 Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau er mwyn nodi'n glir gostau a manteision y trefniadau presennol yng nghyd-destun diben y gwasanaeth. (Dylai hyn gynnwys adolygiad o gostau a manteision y trefniadau presennol ar gyfer storfeydd o'u cymharu ag opsiynau amgen.) |

| Cwestiwn | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw'r canlyniadau a gyflawnir gan yr Uned yn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor?** | Aneglur | Er bod y Gwasanaeth Tai a'r Uned yn asesu sampl o waith a gwblhawyd ac yn ceisio barn tenantiaid, prin yw'r wybodaeth gyfredol am berfformiad ac, mewn rhai achosion, mae'n annibynadwy.<br>Mae gweithgarwch yr Uned yn seiliedig ar drefniadau a gyflwynwyd ac a ddatblygwyd yng nghyd-destun tendro cystadleuol gorfodol. Nid yw'r trefniadau yn darparu digon o wybodaeth i roi sicrwydd bod cyfrifon yr Uned yn rhoi darlun cywir a theg o'i chostau o gymharu â'r incwm a geir o'r Cyfrif Refeniw Tai.<br>Nid yw'r Cyngor wedi adolygu natur y gwasanaeth a ddarperir yn ddiweddar yng nghyd-destun newidiadau i ofynion statudol na datblygiad ei flaenoriaethau ei hun.<br>O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith sy'n ei alluogi i werthuso a yw'r canlyniadau a gyflawnir gan yr Uned yn cyflawni ei flaenoriaethau neu'n cyfrannu at y gwaith o'u cyflawni.<br><br>**Cynnig ar gyfer gwella:**<br>C6 Ar ôl pennu diben clir ar gyfer y gwasanaeth, nodi ystod o fesurau perfformiad perthnasol sy'n ei gwneud yn bosibl i werthuso'r canlyniadau a gyflawnir drwy ddarapru'r gwasanaeth atgyweirio a rhoi proses adolygu a gwerthuso systemig ar waith ar lefel swyddogion ac aelodau. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk